**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Mabon ap Gwynfor
Aelod o'r Senedd dros
Ddwyfor Meirionnydd

27 Chwefror 2024

Ardaloedd Draenio Mewnol

Annwyl Mabon,

Diolch i chi am godi eich pryderon am Ardaloedd Draenio Mewnol gyda mi. Yn fras, byddwn yn awgrymu bod Ardaloedd Draenio Mewnol yn ffitio'n fwy cadarn yng nghylch gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Rwy'n rhannu eich pryderon, fodd bynnag, ynghylch colli tir ffrwythlon/cynhyrchiol ac mae'r materion hynny'n cyd-fynd i raddau helaeth â chylch gwaith Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Felly, rwy'n hapus i wneud rhywfaint o waith archwilio ar y mater.

Oherwydd cyfyngiadau ar amser y Pwyllgor byddwn yn gwneud y gwaith hwn drwy ohebiaeth i ddechrau. Byddaf yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Undebau Ffermio i gasglu barn. Unwaith y caf ymatebion byddaf yn eu trafod gyda'r Pwyllgor a byddwn yn penderfynu sut i symud ymlaen. Byddaf yn cadw cysylltiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd AS yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**